NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Regorafenib ar gyfer tiwmorau stromatig gastroberfeddol na ellir eu tynnu'n llwyr neu fetastatig sydd wedi'u trin yn flaenorol

15 Tachwedd 2017

Mae regorafenib (Stivarga) ar gael ar y GIG. Mae'n driniaeth bosibl ar gyfer tiwmorau stromatig gastroberfeddol na ellir eu tynnu'n llwyr neu fetastatig sydd wedi'u trin yn flaenorol (GIST) mewn oedolion os yw'r canlynol yn gymwys:

- ni allant oddef imatinib na sunitinib neu mae ganddynt afiechyd sydd wedi datblygu ar ôl cymryd y cyffuriau hyn ac
- mae ganddynt statws perfformiad yr Eastern Cooperative Oncology Group o 0 neu 1.

Wrth asesu sut mae cael GIST yn effeithio ar ansawdd eich bywyd, dylai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ystyried unrhyw anableddau neu anawsterau cyfathrebu a allai fod gennych.

Os nad ydych yn gymwys i gael regorafenib, ond eich bod eisoes yn ei gymryd, dylech allu parhau nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ar yr adeg orau i roi'r gorau i'w gymryd.

## *A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?*

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd,  os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights

**Cwestiynau i feddwl amdanynt**

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

## *Gwybodaeth a chymorth*

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Gwybodaeth i Gleifion Ymchwil Canser y DU, 0808 800 4040
- GIST Support UK, 0300 400 0000
- Cymorth Canser Macmillan, 0808 808 0000
- Sarcoma UK, 0207 250 8271

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-2729-6

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights